CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 4, 2016

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Lun, Ionawr 4, 2016 am 7:00 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Gerallt Griffith, Barry Jones a Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Huw A. Evans, Llion Rh. Williams ac Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 17, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 17, 2015

Eitem 10.a. Cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio. Y cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Lun, Ionawr11, 2016 am 7.00yh. i drafod y mater.

O'r cyfarfod diwethaf penderfynwyd i'r cynghorau paratoi rhestr o asedau sydd ganddynt, y gwaith allanol sydd yn cael ei wneud, a gweithgareddau cymunedol sydd yn cael eu cynnal. Yn y dyfodol roedd yn syniad o gael Anwen Davies, Rheolydd Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn bresennol.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (8 Rhagfyr, 2015) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. mae trwsio polyn arwydd rhwng troad Dolserau a Dolgellau ar eu rhaglen waith.

ii. mae clirio dail ar y ffordd rhwng Troedyrhiw ac Eisingrug, Rhydymain ar eu rhaglen waith.

iii. mae rhoi pyst pren newydd i 'crash barriers' ar y rhiw wrth Capel y Ffrwd, Llanfachreth yn cael ei flaenoriaethau ar restr risg.

iiii. mae gwaith wedi cael ei drefnu i wagu cwterydd i glirio dŵr ar yr A494 rhwng Drwsynant a Hywel Dda.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (Tachwedd 16, 2015) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Mae'n ymwneud a Her Gwynedd ac yn cynnwys rhestr o opsiynau mae Cyngor Gwynedd yn eu hystyried a all fod o ddiddordeb i Gynghorau Cymuned / Tref i gwblhau holiadur Her Gwynedd. Mae angen gwblhau'r holiadur cyn 30 Tachwedd 2015. Y rhestr sy'n berthnasol i ni yw:

Amg13 – Llwybrau Cyhoeddus
Amg17 – Cynnal Meinciau ac arwyddion enwau strydoedd.
Econ1 – Canolfannau Croeso'r Cyngor.
Econ6 – Pont Abermaw.
Amrwyio19 – Toiledau Cyhoeddus.

b. Llythyr (Tachwedd 2015) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod nid oes gan y Cyngor cyfeiriad e-bost neu wefan. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 mae'n ofynnol i ni roi gwybodaeth ar wefan a bod e-bost.

Mae rhain wedi cael eu gwneud.

c. Llythyr (19/11/2015) oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn am blismona yn Clwb Golff Dolgellau ar 14/01/2016 am 6.00yh. Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Mr Winston Roddick yn bresennol.

ch. Llythyr (Tachwedd 2015) oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru. Yn Ionawr 2016 maent am ail lansio Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth (Neighbourhood Watch Scheme) sy'n golygu bydd angen recriwtio a chofrestru aelodau newydd. Mae hyn i gynorthwyo'r heddlu.

d. Llythyr (8/12/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod ni fydd etholiadau Cynghorau Cymuned a Thref yn 2016. Mi fyddant yn cael eu cynnal yn 2017 i gyd-fynd ag etholiadau Awdurdodau Unedol.

dd. Llythyr (9/12/2015) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 10 Mai, 19 Mai, 24 Mai 2016.

e. Llythyr (Rhagfyr 2015) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

f. Llythyr (19 Tachwedd, 2015) oddi wrth Dawns Gymuned ar Gyfer Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ff. Llythyr (17/12/2015) oddi wrth Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a De Ynys Môn. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

g. Llythyr (Rhagfyr 2015) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/54/267F. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Uwchraddio gorsaf telathrebu bresennol. Safle CTIL 123886, Brith Fryniau, Rhydymain.

ii. NP5/54/356B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Gosod twrbin gwynt ar dwr 12m o uchder, cyfanswm o 14.75m ar frig y llafn. Tir yn Cae Glas, Llanfachreth.

iii. NP5/54/434. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cynllun trydan dwr 99.9kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin a gosod pibellau dan y ddaear. Afon Celynog, ger Prysglwyd Uchaf, Rhydymain.

iiii. NP5/54/19B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Creu mynediad newydd i gerbydau. Hengae, Llanfachreth.

b. Cais NP5/54/LU437A. Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithiol neu Ddatblygiad (Defnydd Presennol) ar gyfer gwaith atgyweirio a newidiadau allanol i ddau adeilad a gosod dwy sied offer llaw. Brithgwm Isaf a Brithgwm Canol, Brithdir.
Sylw'r Cynghorwyr sydd ei angen nid y Cyngor.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Gwifrau Uwchben.

Cais NP/5/54/E434A. Nid oes gwrthwynebiad i uwchraddio llinell drydan uwchben mewn perthynas a darparu cyflenwad i allforio trydan o Gynllun Trydan Dwr Afon Celynog. Tir ger Prysglwyd Isaf, Rhydymain.

ch. Llythyr (Rhagfyr 17, 2015) Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Asesiad o Sensitifrwydd a Capasati y Dirwedd. Mae'r ddogfen yn rhan o Canllaw Cynllunio Atodol. Mae'r wybodaeth yn swyddfa'r Parc a llyfrgelloedd.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Tachwedd 2015: £1,135.39.

b. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2015: £7,734.71.

c. Bil (2/12/2015) am £115.25 oddi wrth Gwynfor E. Jones am ailosod cerrig wrth gât gofgolofn Llanfachreth.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Derbyniwyd (09-12-15) £1,053.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at ad-daliad am dorri tyfiant a chlirio canghennau ar lwybrau cyhoeddus y gymuned.

d. Llythyr (18 Rhagfyr 2015) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen i ni ddarparu manylion praesept am 2016 / 2017. Maent angen y wybodaeth erbyn Ionawr 29, 2016.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £6,000.00 fel y llynedd.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Cafwyd trafodaeth ar effaith toriadau ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Kim Burnham, Cyfoeth Naturiol Cymru bod trigolion Hermon ac Abergeirw eisiau gwybodaeth ynglŷn ail agor Ffordd Lefel oherwydd anghyfleustra mae'n ei achosi.

Os ni fydd ymateb bydd y mater yn cael ei roi i Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, cael cyfarfod cyhoeddus gyda thrigolion yn ardal, a rhoi gwybod i'r cyfryngau.

c. Hefyd, rhoi gwybod i Kim Burnham i Cyfoeth Naturiol Cymru rhoi gwybod i'r bobl am doriadau yn nhrydan byddant yn wynebu am gyfnod o 30 diwrnod a bydd y trydan ar gael trwy generators. A gofyn iddo ba ddarpariaethau mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i sicrhau bydd y generators yn gweithio yn effeithiol.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. arwyddion ar ffordd A494 ar bob ochr i fynedfa Dolserau Uchaf i rybuddio gyrwyr bod ceirw yn croesi'r ffordd.

ii. ysguba hwyneb Ffordd Lefel, Llanfachreth ar frys.

Llofnod: Dyddiad: